CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
3 MEDI 2014, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL: Cyng D I Roberts, N Jones, G Roberts, A Mummery (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R Edwards, A Evans, A Holmes, M Jones (Cyngor Sir), J Evans (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 8 Gorffennaf 2014. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Dol Fraint, Star (llwybr)** - Mae'r Cyngor Sir yn y broses o gorfodi yr ymgeisydd i gwneud y gwaith.
4.2	**Cyflymder Penmynydd** - Darllenwyd ebost gan yr Adran Priffyrdd yn dweud " Fel ac y gwyddoch mae adolygu y gwaharddiad cyflymder ar y B5420 yn unol a chanllawiau newydd Llywodraeth Cymru ac wedyn cyflwyno newidiadau wedi bod yn destun n ifer o gwynion yn lleol. Trafodais y mater mewn cyfarfod mis Mehefin gyda Phennaeth y Gwasanaeth yma, Deilydd Portffolio'r Gwasanaeth ac Arweinydd y Cyngor yn dilyn cyfarfod am faterion eraill. Eu barn hwy oedd y dylid disgwyl hyd nes y bydd gennym flwyddyn o data cyflymder a ystadegau cyflymder cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynnol. Rwyf wedi hysbysu'r Heddlu o'r argymhelliad yma"
4.3	**Beinciau** - Mae y Clerc wedi archebu y beinciau a wedi cael pris gan Mr Sion Jones am gosod y beiniciau - £300. Penderfynwyd derbyn y pris.
4.4	**Lon Garnedd Isaf -** Darllenwyd ymateb gan y Cyngor Sir yn dweud mi fydd yr Awdurdod yn marcio'r gyffordd.
4.5	**BT (polyn)** - Mae BT yn y proses o gwneud y gwaith
4.6	**Canolfan yr Urdd Penmynydd** - cais ariannol - nid yw y Clerc wedi derbyn copi o'r cyfrifon. Penderfynwyd i beidio cyfrannu.
4.7	**Cyflwr llwybr cyhoeddus** (flyover) - mae'r gwaith wedi cael ei wneud ond mae'r Clerc wedi derbyn cwyn am mwsog ar y llwybr. Penderfynwyd trosglwyddo y mater at y Cyngor Sir.
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Priffyrdd
5.1	B5420 Ffordd Penmynydd (gweler 4.2)
5.2	Lon Garnedd Isaf (gweler 4.4)
	Llofnod **Cadeirydd** **01.10.14**

	Cynllunio
5.3	Adeilad Niwclear Newydd Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol (gwybodaeth yn unig)
5.4	41C75E Cais llawn i greu mynedfa i gerbydau yn Hafan, Star - dim sylwadau
5.5	41C75F Cais llawn am addasu ag ehangu sydd yn cynnwys tô teras yn Ael y Bryn, Star - dim sylwadau
5.6	41C66F/SCR cais am farn sgrinio ar gyfer codi un twrbin wynt gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 24.8m a uchder blaen unionsyth hyd at uchafswm o 34.5m ynghyd a gosod blwch rheoli a gwaith cysylltiedig ar dir yn Marchynys, Penmynydd. Sylwadau y Cyngor: Mae ceisiadau o'r fath fel hyn ddim i'w wneud â gwyddoniaeth newid yn yr hinsawdd. Maent yn ymwneud â ffermio cymhorthdal. Nid oes unrhyw fanteision i'r gymuned, dim ond i dirfeddianwyr. Mae maint a graddfa'r cais hwn yn llawer rhy uchel. Bydd y tyrbinau gwynt yn cael effaith weledol a'r sŵn a fydd yn effeithio ar fywyd gwyllt, bydd yn cael unrhyw le yn y dirwedd wledig, a bydd yn cael ei weld am filltiroedd. Bydd yn cynhyrchu ychydig iawn o ynni. Bydd tyrbinau gwynt o'r maint hwn yn difetha harddwch yr Ynys. Byddant hefyd yn effeithio ar dwristiaeth. Mewn ardaloedd eraill lle mae ceisiadau wedi cael eu cymeradwyo, mae twristiaeth wedi gostwng gan 25%. Twristiaeth yw'r prif ddiwydiant ar yr Ynys. Gall tyrbinau gwynt cyfrannu tuag at broblemau iechyd, yn enwedig i'r rhai sy'n byw yn agos. Byddant yn lleihau gwerth yr eiddo yn yr ardal.
	Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Mon
5.7	Grantiau Cyfalaf - Llythyr yn cadarnhau bod yr Elusen yn cynnig grant £945 tuag at beinciau
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
6.1	BT - polyn - gweler 4.5
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Penderfynwyd talu G Hughes £180 am torri llwybr (y flyover)
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Derbynwyd adroddiad yr archwiliwr allanol
8.2	Mae Lon Tyn Coed - Penmynydd angen ei dorri. Mae Cyng A Mummery wedi trefnu i'r gwaith cael ei wneud
8.3	Mae Cyng Mummery wedi cael cwyn am cyflwr mynwent Sant Gredifael. Dywedodd y Clerc bydd Cyng Angharad Holmes gyda wybodaeth am y fynwent erbyn y cyfarfod nesaf.
8.4	Mae Cyng Nia Jones wedi cael cwyn am plant yn chwarae pel droed yn Star ac yn cicio'r pel yn erbyn yr hysbysffwrdd. Bydd y Clerc yn dod ar mater at sylw y Cyngor Sir
8.5	Dywedodd Cyng G Roberts bod tyllau yn y lon tu ol i Bryn Ffynnon. Cynigodd Cyng mummery dod ar mater at sylw y Cyngor Sir
8.6	Mae'r railings wedi torri ger Castelliog - troeiad Penmynydd/Star. Bydd Cyng Mummery yn dod ar mater at sylw y Cyngor Sir
	Llofnod **Cadeirydd** **01.10.14**